Awstin Sant *m.* 604

Mynach ac archesgob cyntaf Caergaint

Dechreuodd ymgyrchoedd cenhadol Awstin yn Lloegr yn 596. Anfonodd y Pab Gregori Awstin o Fynachlog Sant Andreas, Rhufain, gyda deugain o fynaich yn y fintai. Cyraeddasant dde Ffrainc ond fe droesant yn ôl am fod arnynt ofn wynebu'r anwariaid yn Lloegr. Perswadiodd Gregori hwy i fynd yno eto ac fe gyraeddasant Ebbsfleet wrth aber afon Stour yng Nghaint. Er mawr syndod iddo, cafodd Awstin groeso gan Ethelbert, brenin cryfaf de Lloegr. Ymddengys fod Duw wedi paratoi'r ffordd iddynt gan fod gwraig Ethelbert, Bertha, yn Gristion a oedd wedi bod yn gweddïo dros y Saeson. Roedd Ethelbert yn ddyn gwâr, cryf a gwybodus, yn wahanol iawn i'r hyn a dybiai Awstin. Caniatawyd i Awstin genhadu'n agored ond fe roddwyd un amod iddo gan y brenin, sef nad oedd yn cael defnyddio gorfodaeth na thrais i ennill pobl. Gorymdeithiodd Awstin a'i fynaich i mewn i Gaergaint yn cario baner o'r Crist croeshoeliedig.

Roedd y frenhines Bertha'n gweddïo yn ddyddiol yn eglwys fechan Sant Martin, a ddaeth maes o law yn ganolfan ymgyrchu i Awstin. Dechreuodd y mynaich ganu, gweddïo, pregethu a gweinyddu'r offeren. Tyrrai pobl yno yn ddyddiol i glywed gair Duw. Cefnasant ar eu duwiau paganaidd gan droi at Grist. Sefydlwyd nifer o gymunedau Cristnogol a bu'n rhaid i Awstin anfon i Rufain am ragor o gymorth.

Yn Hydref 597 teithiodd Awstin i Arles er mwyn cael ei gysegru'n esgob. Yn ddiweddarach, dan gyfarwyddyd Gregori fe'i galwyd yn Archesgob Lloegr. Pan ddychwelodd i Gaergaint rhoddodd Ethelbert dir iddo adeiladu eglwys, palas a mynachlog arno.

Adeiladodd eglwys yno a'i galw yn Eglwys y Gwaredwr Sanctaidd. Yn raddol daeth y Brenin Ethelbert, trwy esiampl y mynaich, yn hoff o Gristnogaeth ac fe'i bedyddiwyd yn ystod y Pasg 601.

Roedd y Pab Gregori yn Rhufain yn awyddus i ennill gweddill Lloegr gydag Awstin wrth y llyw. Yn 603 ymdrechodd Awstin am y tro cyntaf

i gyfarfod yr esgobion Celtaidd. Roedd am iddynt dderbyn awdurdod Rhufain. Bu'r cyfarfod cyntaf o dan dderwen rywle ar y ffin rhwng Swydd Gaerloyw a Gwlad yr Haf. Roedd y Celtiaid yn amheus o esgobion Rhufain ac ni ddaethpwyd i unrhyw gytundeb. Gwnaed ail ymdrech, gyda chyfarfyddiad yn ardal Bangor Is-Coed ond ni ddaeth dim o hynny chwaith. Dychwelodd Awstin i Gaergaint i barhau â'i genhadaeth ymhlith Sacsoniaid Dwyrain Essex. Sefydlwyd esgobaeth yn Llundain gyda Mellitus yn esgob. Roedd y gwaith yn llwyddo ond bu farw Awstin yn 604, ac fe'i claddwyd wrth ymyl eglwys Sant Pedr a Sant Paul ger Caergaint. Hyd ei weinidogaeth yn Lloegr oedd rhyw saith mlynedd. Mynach oedd Awstin ac nid efengylwr; ufuddhau a wnaeth i orchymyn y Pab. Er hyn cyflawnodd waith mawr yn sefydlu achosion Cristnogol.